
# Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033

## Asesiad o Effaith ar Iechyd



Tachwedd 2019

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**This document is also available in English.**

Mae’r ddogfen hon ar gael i’w gweld a’i lawrlwytho ar wefan y Cyngor yn: www.conwy.gov.uk/cdlln Mae copïau hefyd ar gael i’w gweld yn y prif lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Coed Pella, Ffordd Conwy, Bae Colwyn LL29 7AZ neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech chi gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd ar y ddogfen hon, cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575181 / 575445/ 575124 / 574232.

**Gellir darparu'r ddogfen hon ar Gryno Ddisg, yn electronig neu mewn print bras a gellir ei chyfieithu i ieithoedd eraill. Cysylltwch â’r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.**

**Asesiad o Effaith ar Iechyd**
**Cynllun Datblygu Lleol Newydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CDLlN): Strategaeth a Ffefrir Drafft**

19 Tachwedd 2019

Hwyluswyd gan


Siwan R Jones
Delyth W Jones
Prif Swyddogion Iechyd Cyhoeddus
Tîm Iechyd Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr




**Cynnwys**



| | **Tudalen.** |
|---|---|
| Rhagarweiniad | 3 |
| AoEI mewn cynllunio, tai ac adfywio | 4 |
| Crynodeb o AoEI: | 5 |
| Adnabod grwpiau allweddol o'r boblogaeth y bydd y rhaglen yn effeithio arnynt | 5 |
| Rhestri Wirio Penderfynyddion Iechyd a Lles | 7 |
| Crynodeb | 10 |
| Argymhellion | 11 |
| Rhagor o wybodaeth | 11 |
| Atodiad 1 – Mynychwyr | 11 |
| Atodiad 2 – rhestr wirio Grŵp Poblogaeth | 12-13 |
| Atodiad 3 – rhestr wirio Iechyd a Lles | 14 |

## 1.0 Rhagarweiniad

Strategaeth a Ffefrir 2018- 2033 CDLlN Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yw'r cam statudol cyntaf y mharatoad y CDLlN. Mae'n nodi'n fras yr ymdriniaeth y mae'r CDLlN yn bwriadu ei dilyn i sicrhau bod datblygiad yng Nghonwy yn gynaliadwy.

Mae strwythur y CDLlN i'w weld yn Ffigwr 1 ac yn cynnwys themâu allweddol Polisi Cynllunio Cymru (PCC Rhifyn10) a'r nodau llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

**Ffigwr 1: Strwythur y CDLlN**




Mae'r Strategaeth a Ffefrir (SFf) wedi'i chynnal gan bedair adran ategol y bwriedir iddynt gyfrannu'n unigol at greu lleoedd a datblygiad cynaliadwy yng Nghonwy:

## 1.1 Creu Lleoedd Cynaliadwy

Caiff y Strategaeth a Ffefrir ei llunio wedi ystyried y materion strategol perthnasol i greu lleoedd sy'n effeithio ar Gonwy. Mae'r adran hon o'r Strategaeth a Ffefrir yn canolbwyntio ar y polisïau strategol hynny a fydd yn cael yr effaith mwyaf ar y math o ddatblygiad a fydd yn digwydd yn y pen-draw a'i gyfraniad tuag at ddatblygiad cynaliadwy a lles amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd Conwy. Mae'r adran hon yn hyrwyddo polisïau integredig na ddylid eu hystyried ar eu pen eu hunain yn ystod y broses ddatblygu. Mae hyn yn cynnwys dyluniad datblygiad a'i effeithiau ar fywyd bob dydd yn ogystal â meddwl mewn dull cyfannol am ble y gallai pobl fyw a gweithio a pha ardaloedd y dylid eu diogelu. Mae'r adran hon yn amlinellu'r weledigaeth creu lleoedd strategol a lleol nodedig ar gyfer creu lleoedd cynaliadwy, sydd wedi'i chefnogi gan bolisïau strategol ar Egwyddorion Creu Lleoedd Cynaliadwy, Lefelau Twf Tai, Lefelau Twf Swyddi, Dosbarthiad Twf a Hierarchaeth Aneddiadau, Creu Lleoedd a Dyluniad

Da, Hyrwyddo Lleoedd Iachach, yr Iaith Gymraeg, Rheolaeth Gynaliadwy Adnoddau Naturiol, Creu Lleoedd Mewn Ardaloedd Gwledig, Cynlluniau Lle, Safleoedd Strategol, Seilwaith a Datblygiadau Newydd a'r Ffurflen Rheoli Anheddiad.

## 1.2 Lleoedd Iach a Chymdeithasol yng Nghonwy

Bydd modd cyfrannu at lefydd Cymdeithasol yng Nghonwy drwy ddarparu cymunedau cydlynol, wedi'u cysylltu'n dda ar gyfer pob sector mewn cymdeithas Bydd modd gwireddu hyn drwy ganiatáu i bawb gael ansawdd bywyd da drwy fyw mewn cymunedau cryf a diogel, hyrwyddo datblygiadau cynhwysol a gwella mynediad at wasanaethau allweddol a chyfleusterau hamdden. Bydd yr ymdriniaeth Strategaeth a Ffefrir yn cefnogi pobl i fabwysiadu ffyrdd iach o fyw, yn sicrhau datblygiadau cymdeithasol gynhwysol a chymunedau mwy cydlynol. Mae'r adran hon yn gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer Cludiant, Tai, Canolfannau Manwerthu a Masnachol, Cyfleusterau Cymunedol a Mannau Hamdden.

## 1.3 Lleoedd Naturiol a Diwylliannol yng Nghonwy

Lleoedd Naturiol a Diwylliannol yng Nghonwy yw'r rhai hynny sy'n gwerthfawrogi ansawdd tirluniau ac amgylchedd hanesyddol Conwy, yn diogelu asedau economaidd at y dyfodol wrth ymateb i'r heriau yn sgil newid hinsawdd ac wrth hyrwyddo atebion carbon isel, amddiffyn tirluniau a chynefinoedd ac annog ffyrdd iach o fyw gyda'r fantais o wella lles corfforol a meddyliol a'r elfennau o hyn sy'n cael eu hannog yng Nghynllun Llesiant Conwy a Sir Ddinbych.

Mae'r adran hon yn gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer Tirluniau, Ardaloedd Arfordirol, yr Amgylchedd Hanesyddol, Adfywio Drwy Ddiwylliant, y Seilwaith Gwyrdd, Bioamrywiaeth, Dŵr, Aer, Seinwedd a Golau a Llifogydd.

## 1.4 Lleoedd Ffyniannus yng Nghonwy

Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn hyrwyddo economi ffyniannus yng Nghonwy drwy gyflogaeth a datblygiad economaidd wedi'u cysylltu'n dda mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch. Bydd y lleoedd hyn wedi'u dylunio a'u lleoli gyda'r nod o hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a mynd i'r afael â newid hinsawdd drwy eu gwneud yn hawdd cyrraedd atynt ar droed neu feic, sicrhau eu bod wedi'u cysylltu'n dda gan gludiant cyhoeddus a thrwy ddefnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy a charbon isel.

## 2.0 Asesu'r Effaith ar Iechyd mewn Cynllunio, Tai ac Adnewyddu

Mae Asesiad o Effaith ar Iechyd yn declyn defnyddiol ar gyfer galluogi cydweithio ac integreiddio deilliannau iechyd gwell yn y defnydd o dir a chynllunio cludiant, tai ac adfywio.

Yng Nghymru, mae Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd wedi cael eu defnyddio i nodi a gwella effaith CDLl, cynlluniau cludiant, ceisiadau cynllunio mawr, rhaglenni "Adnewyddu Bywiog a Dichonol " ac ystod eang o ddatblygiadau a pholisïau tai. Nid yw Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn asesiad statudol ar gyfer cynllunwyr yng Nghymru, fodd bynnag mae Llywodraeth Cymru'n ystyried hyn fwyfwy fel arfer gorau.

**Mae tystiolaeth gref a chynyddol am effaith yr amgylched adeiledig, cludiant a thai ar iechyd. Deilliodd y negeseuon hyn o adolygiad diweddar o'r dystiolaeth am yr amgylchedd adeiledig ac iechyd –**

*Mae amgylcheddau adeiledig o ansawdd gwael yn gysylltiedig â lefelau is o iechyd meddwl, yn arbennig ymysg merched, yr henoed a phobl ddi-waith*

*Mae cymdogion swnllyd, mannau gwyrdd o safon wael, gorlenwi a mynediad cyfyngedig at gyfleusterau yn gysylltiedig â deilliannau iechyd meddwl gwael.*

*Mae amodau amgylcheddol yn dylanwadu ar y teimlad o fod yn anniogel mewn cymdogaeth. Gall hyn arwain at les meddyliol is a newidiadau mewn ymddygiad sy'n ymwneud ag iechyd, er enghraifft ymarfer corff.*

*Mae mwy o dir gwag a diffaith sy'n gysylltiedig â nifer o ddeilliannau iechyd gwael mewn ardaloedd o anfantais gymdeithasol ac economaidd.*

*Mae'r amodau mewn cymdogaeth sy'n hyrwyddo iechyd da yn cynnwys: dewis ac amrywiaeth; amgylcheddau wedi'u cadw'n dda; cludiant gyhoeddus fforddiadwy ac effeithlon; mannau chwarae diogel a chymdeithasol; mannu gwyrdd o safon uchel; llwybrau troed o safon sy'n hawdd i bobl gerdded arnynt ac wedi'u goleuo'n dda a phatrymau llwybrau sy'n ychwanegu gwerth cymdeithasol.*

*Mae bod â rhwydwaith cymdeithasol cryf a chynhaliol yn bwysig ar gyfer cynnal lles meddyliol a gall nodweddion yn yr amgylchedd adeiledig hwyluso neu leihau cyfleoedd am weithgaredd cymdeithasol.*

*Gall dwysedd yr amgylchedd adeiledig effeithio ar lefelau o ffydd a chyfalaf cymdeithasol, a gall datblygiadau dwysedd is wahanu cymunedau'n ddosbarthiadau cymdeithasol ar wahân.*

*Gall y gor-ddefnydd o gerbydau a diffyg amwynderau lleol effeithio'n negyddol ar y rôl sydd gan gymunedau o ran galluogi gweithgaredd cymdeithasol.*

*Mae mannau a llwybrau cyhoeddus wedi'u cynnal yn dda, yn nodedig, yn ddeniadol ac sy'n teimlo'n ddiogel alluogi gweithgaredd cymdeithasol ac annog pobl i flaenoriaethu ymddygiad sy'n canolbwyntio ar y gymuned yn hytrach na'r unigolyn.*

*Gall mannau cyhoeddus a strydoedd wedi'u cysylltu'n dda ac sy'n ddeniadol annog mwy o bobl i ymarfer corff a gwneud dewisiadau teithio egnïol.*

## 3.0 Crynodeb o'r Asesiad o Effaith ar Iechyd

**Adran 1 – Adnabod grwpiau allweddol o'r boblogaeth y bydd y rhaglen yn effeithio arnynt (Rhestr wirio grŵp poblogaeth – Atodiad 2)**

Roedd rhan gyntaf yr asesiad yn ymwneud ag adnabod grwpiau allweddol o'r boblogaeth y gallai'r CDLlN effeithio arnynt fwy nag eraill. Dynodwyd y grwpiau canlynol –

**Grwpiau oedran**

- Fe allai pob grŵp gael eu heffeithio ond gallai polisïau lleol effeithio ar wahanol grwpiau
- Effaith ar blant a phobl ifanc mewn perthynas ag ysgolion a mannau agored
- Effaith ar sipsiwn a theithwyr o ran diwallu anghenion llety
- Prif lwybrau teithio – i ac o'r gwaith – llif economaidd yn cael ei ystyried yn hytrach nag unigolyn sy'n gyfrifol am ollwng plant yn yr ysgol, gofalu a mynd i'r gwaith. Gallwn newid y ffordd yr ydym yn meddwl am symudiadau teithio pobl – mae pobl yn teithio i amrywiaeth o lefydd, nid dim ond i'r gwaith. Cyfeiriwyd at y llyfr *Invisible Women: Exposing Data Bias in a World Designed for Men* (Caroline Perez) sy'n dweud fod merched wedi'u hanfanteisio oherwydd y feddylfryd gynllunio draddodiadol. Rhaid sicrhau bod mannau agored/seilwaith gwyrdd i bawb o bob oedran.
- Dylunio cartrefi am oes y gellir eu haddasu yn ôl yr angen wrth i sefyllfaoedd newid dros amser. Pobl hŷn – fflat ar y llawr gwaelod yn well wrth iddynt heneiddio, mae hyn hefyd yn wir am bobl efo babanod a phlant bach mewn pramiau
- Pobl hŷn – yn gwneud mwy o ddefnydd o gludiant cyhoeddus
- Cynllunio ar gyfer cerddwyr a beicwyr
- Trigolion ardaloedd gwledig – sut allwn ni sicrhau eu bod yn gallu cael at wasanaethau?

**Grwpiau Incwm:**

- Grwpiau economaidd weithredol
- Tlodi pobl mewn gwaith – mae dod o hyd i lety fforddiadwy yn anodd
- Tlodi cludiant
- Ardaloedd twristiaeth – nid yw pobl yn ennill digon wrth weithio yn y diwydiant twristiaeth i fyw yn lleol
- Dim prifysgol i bobl ifanc 18 + yn ardal Conwy, gan gynyddu'r posibilrwydd y byddant yn gadael y sir ac yn tueddu i beidio dod yn ôl.
- Mae adeiladu o'r newydd yn cael effaith ar yr ardal – angen rhoi cyfle i symud o fewn y gymuned ond nid o reidrwydd i dalu am eu hanghenion tai
- Cyfraniadau adeiladwyr – angen bod yn glir ynghylch yr hyn yr ydym yn ei flaenoriaethu

**Grwpiau mewn perygl uwch o wahaniaethu neu anfantais gymdeithasol arall:**

- 22,000 lle gwely
- Cydweddu darpariaeth gwasanaeth ag anghenion y boblogaeth
- Profi tlodi
- Eiddo y gellir ei addasu
- Fflatiau Pensarn – ansawdd y tai yn broblem, mynediad at wasanaethau, ffordd o fyw
- Bydd asesiad o anghenion sipsiwn a theithwyr yn digwydd cyn bo hir
- Iaith – siaradwyr Cymraeg mewn ardaloedd trefol/arfordirol – darpariaeth tai a seilwaith ddim yn amlwg

- Pobl ddim yn gallu aros yn eu cymunedau eu hunain oherwydd incwm isel – e.e. rhieni unigol – symud yn arwain at ynysu cymdeithasol
- Effaith cau ysgolion/siopau/canghennau/meddygfeydd – canlyniadau arwyddocaol ar fywyd mewn cymunedau

**Grwpiau daearyddol a/neu leoliadau:**

- Gwledig ac i'r dwyrain o'r sir

| **Adran 2: Rhestr wirio penderfynyddion Iechyd a Lles (Atodiad 3)** |
|---|

Mae'r adran ganlynol yn ystyried sut y mae'r CDLlN yn cael effeithiau cadarnhaol neu anfwriadol ar iechyd a lles y boblogaeth.

| | **+ canlyniadau** | **-/canlyniadau anfwriadol** |
|---|---|---|
| **Ffordd o fwy** | • Bydd argaeledd bwyd yn cael ei ystyried yn yr 'astudiaeth manwerthu' ar wahân sy'n ystyried gofynion manwerthu.<br>• Bydd unedau manwerthu bach yn cael eu datblygu.<br>• Rhandiroedd wedi'u cynnwys.<br>• Archwiliad digonoldeb chwarae – creu cyfleuster 'wow' a fydd yn denu pobl i gerdded yno a chyfle i deuluoedd gyfarfod, rhannu a mwynhau! Cyfle arall am adnoddau ar y stepen drws<br>• Seilwaith – beicio a mynediad – angen ei ddatblygu cyn i bobl symud i mewn i'w cartrefi gan y bydd preswylwyr wedi sefydlu eu hymddygiad o ran teithio mewn ceir unwaith y byddant yn symud i mewn. | • Costau posibl y gofynion teithio egnïol a fydd yn cael eu hysgwyddo gan y datblygwr. |
| **Dylanwadau cymdeithasol a chymunedol ar iechyd** | • Mae cynlluniau lle yn ymwneud yn gyfan-gwbl â dylanwadau cymdeithasol a chymunedol ar iechyd.<br>• Pum maes – Cynlluniau Lle - datblygiad seilwaith | |

| | | |
|---|---|---|
| | cymunedol yn cael ei hysbysu drwy sesiynau galw heibio cymunedol. Cyllid 106 a chyllid ffermydd gwynt i gefnogi blaenoriaethau cymunedol.<br>• Ymgysylltiad preswylwyr yn yr hyn sy'n digwydd wrth symud ymlaen<br>• Drwy'r rhaglen moderneiddio ysgolion bydd ysgolion yn dod yn ganolfannau dysgu gydol oes – gofal plant a gofal plant cyfrwng Cymraeg (30 awr) ac anghenion arbennig | |
| **Iechyd meddwl a lles** | • Mae mynediad at dai, swyddi a gwasanaethau yn cynnal iechyd meddwl a lles<br>• Effaith llygredd sŵn ar iechyd a lles plant – bydd hyn yn cael ei ystyried wrth ddatblygu safleoedd newydd<br>• Mynediad at weithgareddau corfforol a mannau agored hygyrch gerllaw<br>• Cyfleusterau addas ar gyfer rhyngweithio yn y gymuned<br>• Bydd y tir mewn ysgolion sy'n cael eu hadeiladu yn yn cael ei gynyddu i ddarparu mwy o le agored<br>• Cysylltiad band eang – cefnogi gostyngiad mewn unigedd | • Mae ymgysylltiad yn y broses CDLl yn anodd iawn a gall fod yn rhwystredig ac yn amhosibl<br>• Gall unigolion ddechrau teimlo dan straen pan maen nhw'n gweld datblygiad wrth ymyl neu yn eu cymunedau |
| **Amodau byw ac amgylcheddol sy'n effeithio ar iechyd** | • Cynllunio ar gyfer llifogydd a dŵr wyneb<br>• Cynlluniau morol a CDLl yn gweithio gyda'i gilydd – ystyried twristiaeth, yr economi a 'gofod glas'.<br>• 1 neu 2 wely – gall gefnogi gwelliant<br>• Cartrefi mawr – pobl hŷn, 'cyfoethog o ran asedau ond tlawd o ran arian | • Mae llifogydd yn digwydd – Dyffryn Conwy'n enghraifft to hyn<br>• Cyfleusterau ar orlifdir<br>• Ansawdd dŵr a gwastraff<br>• Tagfeydd yng nghanol trefi |

| | | |
|---|---|---|
| | parod' – angen cynllunio ar gyfer y dyfodol. Prosiect a ariennir gan y prosiect ICF – effaith ar iechyd a lles<br>• Sŵn<br>• Diogelwch y ffyrdd<br>• Cyfleoedd – ffermydd gwynt ac ati gyda chydbwysedd yr amgylchedd<br>• Lleihau a storio carbon | |
| **Amodau amgylcheddol sy'n effeithio ar iechyd** | • Twristiaeth – gwerth uchel - effaith ar incwm – gwaith (40%)<br>• Dolen at gyrsiau perthnasol yn Grŵp Llandrillo Menai – dargyfeirio<br>• Colli pobl ifanc o'r ardal – eu cefnogi nhw i aros, bydd angen pecyn a fydd yn cynnwys fforddiadwyedd –<br>• Gallu defnyddio teclynnau elw cymdeithasol o fuddsoddiad i gefnogi hyn | • Targedu cyllid tuag ar y flaenoriaeth anghywir – yn lle blaenoriaethu teithio cynaliadwy – elw cymdeithasol ar fuddsoddiad–<br>• Defnydd o dir – grantiau<br>• Defnydd o chwynladdwr<br>• Cynllunio ar gyfer Brexit – canlyniadau anhysbys gyda ffocws ar gymunedau gwledig/ffermio<br>• Pwysau cyfoedion - llwyddiant economaidd arian = llwyddiant!<br>• Agenda twf amhleidiol |
| **Mynediad ac Ansawdd Gwasanaethau** | • Hyfforddiant Meddygol Gogledd Cymru<br>• Iechyd digidol – ffocws yn BIPBC ar hyn o bryd - cyfle i ddefnyddio hyn<br>• Rhannu gwybodaeth fasnachol sensitif – gweithlu gofal sylfaenol – yn erbyn safleoedd strategol i gynnwys deintyddol, optometreg, fferyllfeydd, gwasanaethau iechyd meddwl<br>• Cyfarfodydd wedi'u trefnu rhwng adrannau cynllunio ALl a BIPBC<br>• Tai gydol oes<br>• Datblygu canolfannau cymunedol ar gyfer, er enghraifft Abergele, wedi'u cysylltu â chynlluniau lle | • Mae recriwtio Meddygon Teulu yn anodd ar draws Gogledd Cymru – mewn rhai meddygfeydd nid oes unrhyw gapasiti o gwbl<br>• Mae llety yn her ond hefyd recriwtio gweithlu<br>• Angen deall natur hirdymor y cynllun hwn – a'r heriau sydd o'n blaen – mae ffocws ar atal a hunan-reoli yn hytrach nag ysbytai |

| | | |
|---|---|---|
| | • Ehangu safleoedd ysgol ar gyfer ysgolion newydd<br>• Cludiant – cyfle i weithio'n agosach wrth ddechrau ar y gwaith yn hytrach na meddwl am y peth wedyn.<br>• Bydd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn cael ei gyhoeddi ar 27/11/19 i hysbysu'r gwaith wrth symud ymlaen | |
| **Amgylchedd macro-economaidd a ffactorau cynaladwyedd** | • Datblygu opsiynau datblygiad cynaliadwy<br>• Datgarboneiddio'r cyflenwad ynni gydag elfennau lleol<br>• Hydro – Dolwyddelan – rhagor o gyfleoedd<br>• Tueddiad tuag at ddatganoli yn creu cyfleoedd | • Adeiladu ar fannau gwyrdd – bioamrywiaeth, ecoleg, dŵr wyneb ac ati<br>• Band eang cyflymder uchel a'r effaith fawr ar gymunedau<br>• Seilwaith cyflenwi ynni |

## 4.0 Crynodeb

Roedd y gweithdy'n gyfle i weld sut y gallai'r CDLl effeithio ar iechyd a lles pobl Conwy – canlyniadau bwriadol ac anfwriadol.

Yn dylanwadu ar ddynodi'r grwpiau poblogaeth y gallai fod mwy o effaith arnynt nag eraill roedd trafodaeth am strwythur poblogaeth Conwy sy'n heneiddio'n gynt na'r rhan fwyaf o ardaloedd eraill Cymru. Bydd maint y boblogaeth o oedran gwaith yn dechrau gostwng yn y dyfodol agos. Bydd hyn yn arwain at gymhareb ddibyniaeth uchel h.y. goblygiadau i'r farchnad lafur a allai ddechrau cael trafferth llenwi swyddi gwag yn y dyfodol.

Edefynion pwysig o fewn y drafodaeth am anghenion tai ar draws grwpiau poblogaeth oedd yr angen am dai ar gyfer pobl ifanc ifanc a theuluoedd i'w cadw nhw yn yr ardal, pobl ar incwm is, pobl hŷn a darpariaeth tai mewn ardaloedd gwledig.

Mae ymatebion i'r 'rhestr wirio iechyd a lles' yn awgrymu bod iechyd a lles wedi'i wreiddio yn y CDLl mewn ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ymgymryd â datblygiad cynaliadwy a Deddf Cynllunio (Cymru) sy'n gosod y fframwaith deddfwriaethol a pholisi i reoli'r defnydd o, a datblygiad tir er budd y cyhoedd.

Edefyn penodol drwy'r trafodaethau oedd y sicrwydd a geir y bydd y CDLl yn annog teithio egnïol, gweithgareddau hamdden corfforol, y seilwaith gwyrdd a chynnydd mewn mannau agored pan gaiff yr amgylchedd adeiledig a naturiol eu rhyngblethu.

Mae cydberthynas gryf rhwng ansawdd mannau agored ac amlder eu defnydd ar gyfer gweithgaredd corfforol, rhyngweithio cymdeithasol neu ymlacio. Neges allweddol o'r gweithdy oedd pwysigrwydd datblygiadau newydd nad ydynt yn cael effaith arwyddocaol ar fannau agored gwyrdd a chynnwys teithio egnïol a mannau gwyrdd o fewn eu dyluniadau o'r cychwyn cyntaf er mwyn ymwreiddio'r ymddygiad a fydd yn annog y defnydd ohonynt.

Dynododd yr Asesiad o Effaith ar Iechyd 'ganlyniadau anfwriadol', ac mae'r ymateb i rai o'r rhain y tu allan i gylch gorchwyl y CDLl. Bydd yn angenrheidiol i asiantaethau eraill arwain ar neu ddatblygu ymateb cydweithredol er mwyn lliniaru unrhyw ganlyniadau annymunol. Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sydd â'r cyfrifoldeb arweiniol dros gynllunio gofal sylfaenol a gall trafodaeth gynnar o safbwynt y CDLl i adnabod anghenion heddiw a'r dyfodol, y galw am wasanaethau a chapasiti presennol cyfleusterau i ddarparu gwasanaethau hwyluso ymdriniaeth hirdymor o ran datblygu gwasanaethau gofal iechyd yng Nghonwy.

## 5.0 Argymhellion

Bod cynnwys yr Asesiad o Effaith ar Iechyd yn cael ei adlewyrchu yn natblygiad y Cynllun Adnau.

## 6.0 Rhagor o Wybodaeth

Am ragor o wybodaeth am y defnydd o asesiadau o effaith ar iechyd a mynediad at gyfleoedd e-ddysgu ewch i- https://whiasu.publichealthnetwork.cymru/en/

## 7.0 Atodiadau

**Atodiad 1: Yn bresennol**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | James Harland | Rheolwr y Polisi Cynllunio Strategol | CBSC |
| 2 | Cynghorydd Charlie McCoubrey | Aelod Cabinet Tai a Gwasanaethau Rheoleiddio | CBSC |
| 3 | Wyn Jones | Rheolwr Strategol, Rheoli Eiddo a Safleoedd | CBSC |
| 4 | Shane Wetton | Swyddog Ymgysylltiad Strategol a'r Cynllun Lle | CBSC |
| 5 | Janine Edwards | Uwch Ymchwilydd | CBSC |
| 6 | Robin Sandham | Uwch Swyddog Cynllunio | CBSC |
| 7 | Carol Evans | Uwch Swyddog Cynllunio | CBSC |
| 8 | Catrin Perry | Rheolwr Adain y Sector Annibynnol a'r Trydydd Sector | CBSC |
| | | | |
| 9 | Laura Griffiths | Cynllunio Strategol a Thai | CSDd |
| | | | |
| 10 | Jane Trowman | Pennaeth Strategaeth a Chynllunio Iechyd (swyddog arweiniol Conwy a Sir Ddinbych) | BIPBC |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 11 | Siwan Jones | Prif Swyddog Iechyd y Cyhoedd | Tîm Iechyd y Cyhoedd BIPBC |
| 12 | Delyth W Jones | Prif Swyddog Iechyd y Cyhoedd | Tîm Iechyd y Cyhoedd BIPBC |
| | | | |
| 13 | Glyn Evans | Rheolwr Gogledd Cymru | SUSTRANS |

**Atodiad 2 Rhestr Wirio Grwpiau Poblogaeth**

Mae'r rhestr wirio hon i'w defnyddio yn ystod Sgrinio a Gwerthuso Asesiad o Effaith ar Iechyd er mwyn adnabod y grwpiau o'r boblogaeth a fydd o bosibl wedi'u heffeithio fwy nag eraill gan bolisi/prosiect/cynnig.

Mae'r grwpiau a restrir isod wedi'u hadnabod fel bod yn fwy tebygol o ddioddef deilliannau iechyd a lles salach (anghydraddoldeb iechyd) felly mae'n bwysig eu hystyried nhw mewn Sgrinio a Gwerthuso Asesiadau o Effaith ar Iechyd. Mewn Asesiad o Effaith ar Iechyd bydd y grwpiau hynny a ddynodir fel bod yn fwy sensitif i'r effeithiau posibl yn dibynnu ar nodweddion y boblogaeth leol, y cyd-destun a natur y cynnig ei hun.

Canllaw felly yw'r rhestr yn hytrach na rhestr gyflawn. Efallai y byddai'n briodol canolbwyntio ar grwpiau sydd dan sawl anfantais. Nodwch hefyd y gallai'r derminoleg newid dros amser.

Grwpiau Rhyw/Rhywedd

- Benyw
- Gwryw
- Trawsryweddol
- Arall *(rhowch fanylion)*

Grwpiau Oedran *(gellid pennu un ystod oedran am ystyriaeth arbennig)*

- Plant a Phobl Ifanc
- Y Blynyddoedd Cynnar (yn cynnwys beichiogrwydd a'r flwyddyn gyntaf o fywyd)
- Y boblogaeth oedolion gyffredinol
- Pobl Hŷn

Grwpiau Incwm

- Economaidd Anweithgar
- Pobl ar incwm isel
- Pobl nad ydynt yn gallu gweithio oherwydd salwch
- Pobl Ddi-waith

Grwpiau sydd mewn perygl uwch o ddioddef gwahaniaethu neu anfanteision cymdeithasol eraill

- Grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig *(rhowch fanylion)*
- Gofalwyr
- Cyn-droseddwyr:
- Sipsiwn a Theithwyr

- Pobl ddigartref
- Pobl o wahanol iaith/diwylliant (rhowch fanylion)
- Pobl lesbiaid, hoyw a deurywiol
- Plant sy'n Derbyn Gofal
- Ceiswyr lloches
- Pobl â chyflyrau iechyd hirdymor
- Pobl â Phroblemau Iechyd Meddwl
- Pobl ag anableddau/anawsterau corfforol, synhwyraidd neu ddysgu

| Atodiad 3: Rhestr wirio penderfynyddion Iechyd a Lles | | | |
|---|---|---|---|
| **1. Ffordd o fyw** | • Diet/Maeth/Bwydo ar y Fron<br>• Gweithgarwch corfforol<br>• Gweithgaredd â risg e.e. ymddygiad caethiwus, gamblo<br>• Gweithgarwch rhywiol<br>• Defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol: | • Defnydd o alcohol, sigaréts, systemau cymryd nicotin electronig (h.y. e-sigaréts)<br>• Defnydd o sylweddau, meddyginiaeth heb ei roi ar bresgripsiwn a chamddefnyddio meddyginiaeth ar bresgripsiwn. | Iechyd a lles corfforol, meddyliol, cymdeithasol,ac amgylcheddol |
| **2. Cymdeithasol - dylanwadau cymdeithasol a chymunedol ar Iechyd** | • Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod (PNYP) h.y. camdriniaeth gorfforol, emosiynol neu rywiol<br>• Pŵer a dylanwad y dinesydd<br>• Cydlyniad cymunedol, hunaniaeth a balchder lleol<br>• Gwydnwch cymunedol<br>• Rhaniadau yn y gymuned<br>• Trais domestig<br>• Perthnasoedd, trefniadaeth a rolau mewn teuluoedd<br>• Iaith<br>• Ethos ddiwylliannol ac ysbrydol | • Bod yn gymdogion da<br>• Mathau arall o allgau cymdeithasol e.e. digartrefedd, carchariad<br>• Rhianta ac ymlyniad babanod (cysylltiad cynnar cryf rhwng baban a'u prif ofalwr)<br>• Pwysau Cyfoedion<br>• Hiliaeth<br>• Ymdeimlad o berthyn<br>• Ynysu cymdeithasol/unigrwydd<br>• Cefnogaeth gymdeithasol a rhwydweithiau cymdeithasol<br>• Y Trydydd Sector a Gwirfoddoli | |
| **3. Iechyd Meddwl a Lles** | Ystyriwch:<br>• Ydi'r cynnig hwn yn cefnogi ymdeimlad o fod â rheolaeth?<br>• Ydi o'n galluogi cyfranogiad mewn bywyd cymunedol ac economaidd?<br>• Ydi o'n effeithio ar les a gwydnwch emosiynol? | | |
| **4. Amodau byw ac amgylcheddol sy'n effeithio ar Iechyd** | • Ansawdd aer<br>• Atyniad yr ardal<br>• Diogelwch Cymunedol<br>• Mynediad i, argaeledd ac ansawdd mannau gwyrdd a glas a mannau naturiol<br>• Ansawdd tai a deiliadaeth<br>• Yr amgylchedd dan do<br>• Iechyd a lles e.e. cwympiadau, diogelwch yn y cartref, diogelwch mannau cyhoeddus<br>• Llygredd golau. | • Sŵn<br>• Ansawdd a diogelwch mannau chwarae (ffurfiol ac anffurfiol)<br>• Diogelwch y ffyrdd<br>• Arogleuon<br>• Dyluniad amgylcheddol a chymdogaethau trefol/gwledig adeiledig a naturiol<br>• Gwaredu gwastraff ac ailgylchu<br>• Ansawdd dŵr e.e. dŵr môr | |
| **5. Amodau economaidd sy'n effeithio ar iechyd.** | • Diweithdra<br>• Tlodi yn cynnwys tlodi bwyd a thanwydd<br>• Incwm<br>• Dyledion personol a dyledion alwyd | • Anweithgarwch economaidd<br>• Math o gyflogaeth e.e. parhaol/dros dro, llawn/rhan amser<br>• Amodau gwaith e.e. Yr amgylchedd, bwlio, iechyd a diogelwch | |
| **6. Mynediad at wasanaethau a'u hansawdd** | • Cyngor am yrfaoedd<br>• Addysg a Hyfforddiant<br>• Technoleg gwybodaeth, mynediad i'r rhyngrwyd, gwasanaethau digidol<br>• Gwasanaethau hamdden<br>• Gwasanaethau iechyd a meddygol | • Gwasanaethau gofalu eraill e.e. gofal cymdeithasol, y trydydd sector, gwasanaethau ieuenctid, gofal plant<br>• Amwynderau cyhoeddus e.e. neuaddau pentref, llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol<br>• Siopau a gwasanaethau masnachol<br>• Cludiant yn cynnwys parcio, cludiant cyhoeddus a theithio egnïol. | |
| **7. Ffactorau macro economaidd Amgylcheddol a chynaliadwyedd** | • Bioamrywiaeth<br>• Newid hinsawdd e.e. llifogydd, cyfnodau poeth dros ben<br>• Costau byw e.e. bwyd, rhent, cludiant a phrisiau tai<br>• Datblygiad economaidd yn cynnwys masnach | • Polisïau'r Llywodraeth Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy (integreiddiad, cydweithio, ymgysylltiad, meddwl yn yr hirdymor ac atal)<br>• Cynnyrch Domestig Gros<br>• Adfywio | |